Service to the community | People | Gwasanaeth Tân ac Achub Fire and Rescue Service | Striving for excellence | Diversity and inclusivity

# Cydgytundeb

# Capasiti Gwydnwch y Systemau Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn

**Fersiwn 6.3 Dyddiad 19/05/2025**

**CYNNWYS**

Byrfoddau a Diffiniadau.....................................................................................................3

Manylion y Cydgytundeb…………………………………………………………………..................4

Cyflwyniad i Systemau Dyletswydd GTAGC …………………………………………………......6

Trosolwg o System Shifftiau Dyletswydd Criwiau………………………….................................6

Cynllun Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Llwyd) y System Shifftiau Dyletswydd Criwiau Dydd.....7

Oriau Gwaith Criwiau Dydd………………………………………………………………………....7

Trefniadau Gwyliau ar gyfer Criwiau Dydd……………………………………………………….7

Lefelau Capasiti Gwydnwch Criwiau Dydd...................................................................................8

Ffigyrau a Thabl Gwydnwch Criwiau Dydd...................................................................................8

Trosolwg o'r System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn...................................................... 9

Cynllun Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Llwyd) y System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn..9

Oriau gwaith y System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn................................................ 10

Trefniadau Gwyliau'r System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn..………………….................10

Lefelau Capasiti Gwydnwch y System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn............................11

Ffigyrau a Thabl Gwydnwch y Rhyl a Glannau Dyfrdwy…………………………........................11

Ffigyrau a Thabl Gwydnwch Wrecsam.........................................................................................13

Casgliad........................................................................................................................................13

Gwella capasiti gwydnwch...........................................................................................................14

Llofnodion......................................................................................................................................18

## BYRFODDAU

| | | |
|---|---|---|
| DC | – | Criw Dydd |
| WDS | – | Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn |
| WT | – | Amser Cyflawn |
| GTAGC | – | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| AT | – | Yr Awdurdod Tân |
| FBU | – | Undeb y Brigadau Tân |
| NJC | – | Y Cyd-gyngor Cenedlaethol |
| WDSR | – | System Dyletswydd Amser Cyflawn Gwledig |
| TC | – | Gwneud Iawn am Hyfforddiant |
| TIL | – | Amser i Ffwrdd yn lle Tâl |
| BH | – | Gŵyl y Banc |
| LS | – | Gwyliau Gwasanaeth Hir |
| GA | – | Gwyliau Presenoldeb Da |

## DIFFINIADAU

**DIFFYGION CRIWIO** – mae hyn yn cynnwys pob gwyliau, bônt wedi eu cynllunio neu ddim, absenoldebau (yn unol â'r Llyfr Llwyd), ynghyd â gweithgareddau a gynlluniwyd ymlaen llaw, gan gynnwys hyfforddiant i ffwrdd oddi wrth yr wylfa. Mae'r Polisi Rhestr Ddyletswyddau yn rhoi eglurhad pellach.

**SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN –** Mae System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn GTAGC yn system shifftiau y mae'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol wedi cytuno arni ac sy'n cydymffurfio â'r Cynllun Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Llwyd). Mae'n seiliedig ar bersonél yn gweithio holl oriau eu dyletswydd yn yr orsaf heb unrhyw elfen o fod ar alw. Mae'r Llyfr Llwyd yn cyfeirio at hyn fel 'System Shifftiau Dyletswydd', gyda phob cyfnod o bedair awr ar hugain yn cael ei rannu'n shifft dydd a shifft nos. Felly, bydd y ddogfen hon yn defnyddio'r derminoleg hon ar gyfer y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam.

## Y CYTUNDEB

1. Mae'r cydgytundeb hwn yn rhoi manylion y capasiti gwydnwch sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn dwy o'r Systemau Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn a ddefnyddir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), yn unol â'r hyn y mae'r Gwasanaeth ac Undeb y Brigadau Tân (FBU) wedi cytuno arno. Y rhain yw'r system Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn a ddefnyddir yng Nglannau Dyfrdwy, y Rhyl a Wrecsam, a'r system Shifftiau Dyletswydd Criwiau Dydd a ddefnyddir yng Nghaernarfon, Bangor, Caergybi, Llandudno a Bae Colwyn.

2. Mae'r cydgytundeb hwn yn egluro'r arferion gweithio ar hyn o bryd, ynghyd â newidiadau iddynt a fydd yn gwella gwydnwch ar draws y systemau dyletswydd hyn ac yn rhyddhau capasiti ar gyfer cynnal model ymateb sy'n fwy effeithiol ac yn fwy gwydn ar gyfer Gogledd Cymru gyfan.

3. Mae'r cytundeb hwn yn drech na'r cytundebau blaenorol, lle bo'n berthnasol.

## GWEINYDDU'R CYTUNDEB

4. Cyfrifoldeb y Pennaeth Ymateb a'r Prif Swyddog Tân, ar y cyd â chyrff cynrychioliadol, fydd gweinyddu'r cytundeb hwn. Wrth weithredu'r cydgytundeb hwn, bydd y Pennaeth Ymateb a'r Prif Swyddog Tân yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau dros gydraddoldeb yn y gweithle.

## DIBEN Y CYTUNDEB

5. Cynlluniwyd y cytundeb hwn mewn Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn manylu ar drefniadau gwaith a chapasiti gwydnwch presennol dwy o'r systemau Dyletswydd Amser Cyflawn a ddefnyddia'r Gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae'r cytundeb hefyd yn cynnwys eglurhad o'r arferion gwaith ar hyn o bryd ynghyd â diwygiadau i'r arferion gwaith a fydd, gyda'i gilydd, yn dangos sut y gellir sicrhau hunanwydnwch yr wyth gorsaf Amser Cyflawn bresennol sydd gan GTAGC gan ddefnyddio'r sefydliad presennol o 178 o swyddi. Bydd hyn yn galluog rhyddhau'r capasiti ychwanegol o fewn y sefydliad o 208 o swyddi i ddarparu model ymateb sy'n fwy gwydn ac yn fwy effeithiol ar gyfer Gogledd Cymru gyfan.

## CWMPAS

6. Bydd y cydgytundeb hwn yn berthnasol i holl bersonél ochr weithredol y System Dyletswydd Amser Cyflawn sydd wedi'u lleoli yn yr wyth gorsaf GTAGC a grybwyllwyd uchod.

## DYDDIAD GWEITHREDU

7. Mae manylion yr arferion gwaith sydd wedi'u cynnwys yn y cydgytundeb hwn i'w cael ym Mholisi a Gweithdrefn y Rhestr Ddyletswyddau Amser Cyflawn (a bydd angen eu hadolygu'n rheolaidd trwy gydol y cynllun peilot hwn, ar y cyd â chyrff cynrychioliadol). Caiff ei weithredu ar 1 Medi 2025, ynghyd â'r Polisi Rhestr Ddyletswyddau diwygiedig a'i ddogfennau cysylltiedig, ar ôl i'r cydgytundeb hwn gael ei lofnodi gan y Gwasanaeth a'r cyrff cynrychioliadol, a bydd yn cael ei fonitro a'i adolygu fel a ganlyn.

## MONITRO'R CYTUNDEB (i ddechrau'n llawn ar 1 Ionawr 2026)

8. Bydd gweithrediad y system yn cael ei adolygu o leiaf bob chwarter, a hynny gan y Pennaeth Ymateb a'r Prif Swyddog Tân ar y cyd â chyrff cynrychioliadol, a chaiff adborth ei rannu gyda'r holl staff. Bydd yr Awdurdod Tan yn cael adroddiadau diweddaru rheolaidd. Diben yr adolygiad fydd ystyried cynnydd, perfformiad a materion eraill sy'n ymwneud â:
   a.) Lles staff
   b.) Staffio a gwydnwch
   c.) Argaeledd pympiau
   d.) Rheoli presenoldeb (gan gynnwys darpariaeth pan fo salwch tymor byr a hirdymor)
   e.) Amseroedd dechrau a gorffen shifftiau
   f.) Adleoliadau dros dro
   g.) Dyraniad gwyliau
   h.) Taliadau gwydnwch/adleoliad dros dro/goramser
   i.) Hyfforddiant

9. Bydd y PST ac Ysgrifennydd Brigâd Undeb y Brigadau Tân yn gyfrifol am hwyluso'r adolygiadau, ond cadwant yr hawl i ddirprwyo i Swyddog arall pan fo'n briodol.

10. Mae'r PST neu Ysgrifennydd Brigâd Undeb y Brigadau Tân yn cadw'r hawl i adolygu unrhyw agwedd ar y cytundeb hwn, yn dilyn trafodaethau priodol, er mwyn darparu model ymateb mwy gwydn a mwy effeithiol ar gyfer Gogledd Cymru gyfan.

## CYFLWYNIAD

11. Ar hyn o bryd, mae GTAGC yn rhedeg dwy system shifftiau dyletswydd sy'n benodol ar gyfer Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn yn wyth Gorsaf Dân Amser Cyflawn bresennol y Gwasanaeth. Y rhain yw'r System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn a'r System Shifftiau Dyletswydd Criwiau Dydd, ac mae'r ddwy wedi cael cytundeb Llyfr Llwyd y Cyd-gyngor Cenedlaethol. Cytunwyd yn lleol ar system ddyletswydd ychwanegol ar gyfer Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn, sef y System Dyletswydd Amser Cyflawn Gwledig (WDSR). Mae GTAGC hefyd yn rhedeg System Dyletswydd Dydd, ynghyd â phatrwm shifftiau Rheolwr Darparu Hyfforddiant arbennig ar gyfer swyddi Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn sydd ddim wedi'u lleoli mewn gorsafoedd. Byddai angen i'r cyrff cynrychioliadol gytuno ar unrhyw system ddyletswydd ychwanegol yn lleol.

12. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn a'r System Shifftiau Dyletswydd Criwiau Dydd yn unig, a hynny er mwyn dangos sut y gallai glynu at y gweithdrefnau dyletswydd presennol sicrhau hunanwydnwch wyth gorsaf Amser Cyflawn GTAGC o fewn y sefydliad presennol o 178 o swyddi.

13. Trwy ddangos hyn, gall unrhyw swyddi ychwanegol at y cyfanswm hwn o 178, hyd at yr uchafswm sefydliad presennol o 208, gael eu defnyddio i ddarparu model ymateb mwy gwydn a mwy effeithiol i Ogledd Cymru gyfan.

## TROSOLWG O'R SYSTEM DDYLETSWYDD CRIWIAU DYDD

14. Mae system ddyletswydd criwiau dydd GTAGC yn system shifft sydd â chytundeb Llyfr Llwyd y Cyd-gyngor Cenedlaethol ac mae'n seiliedig ar weithio cyfuniad o oriau mewn gorsaf ac oriau ar alwad o leoliad.

15. Rhoddir darpariaeth ar alw trwy fyw, boed hynny fel perchennog neu denant, mewn eiddo sydd o fewn ardal/amser ymateb yr orsaf sy'n defnyddio'r system dyletswydd Criwiau Dydd (oddeutu pum munud) (a darparu'r cyfeiriad).

16. Mae'r trefniant hwn o oriau mewn gorsaf ac oriau ar alwad yn galluogi personél i ymateb ar unwaith i ddigwyddiadau yn ystod oriau'r orsaf, ac i ymateb mewn tua phum munud yn ystod oriau ar alwad.

17. Ar hyn o bryd, mae GTAGC yn gweithredu pum gorsaf system ddyletswydd Criwiau Dydd ar draws y Gwasanaeth, gyda phob gorsaf yn defnyddio system dwy wylfa a chanddynt saith person ar bob gwylfa, a hynny yng Nghaernarfon, Bangor, Caergybi, Llandudno a Bae Colwyn.

Mae Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol (Y Llyfr Llwyd) yn nodi:

*The hours of duty of full-time employees on this system shall be an average of forty-two per week. The hours of duty of part-time employees shall be pro-rata. The rota will be based on the following principles:*

1. *An average of thirty-five hours per week shall be worked at the station.*
2. *An average of seven hours per week shall be on standby at home. Staff members are required to respond to any emergency call received during this standby period.*
3. *Staff members on this system may be requested to undertake retained duties outside the hours at 1 and 2.*
4. *There shall be at least two complete periods of twenty-four hours free from duty each week.*
5. *One hour per day shall be specified as a meal break. Account shall be taken of meal breaks interrupted by emergency calls.*

## ORIAU GWAITH CRIWIAU DYDD

18. Rhaid i staff weithio 182.5 shifft y flwyddyn, ar gyfartaledd, ac eithrio'r gwyliau blynyddol a gyfrifir o'r patrwm shifft o weithio pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd.

19. Diffinnir un shifft fel cyfnod o 24 awr. Rhannir y shifftiau hyn yn oriau mewn gorsaf ac oriau ar alwad.

20. Ar hyn o bryd, y drefn ar gyfer holl orsafoedd dyletswydd Criw Dydd y Gwasanaeth yw gweithio yn yr orsaf rhwng 12.00 a 22.00 o'r gloch, ac i weithio ar alwad rhwng 22.00 a 12.00 o'r gloch (yn ôl y Llyfr Llwyd).

21. Mae'r cyfnod wrth gefn rhwng 22.00 a 12.00 o'r gloch wedi'i isddosbarthu yn 'oriau positif', a hynny er mwyn cydymffurfio â phwynt (2) o Gynllun Amodau Gwasanaeth y Llyfr Llwyd. Rhaid i weithwyr ymateb i unrhyw alwad frys a geir yn ystod y cyfnod wrth gefn hwn.

22. Dan y trefniadau presennol, rhaid i bersonél dyletswydd Criw Dydd weithio pedwar cyfnod olynol ar ddyletswydd ac yna dreulio pedwar diwrnod oddi ar ddyletswydd (yn unol â'r Llyfr Llwyd).

## TREFNIADAU GWYLIAU AR GYFER CRIWIAU DYDD

23. Yn unol ag amodau gwasanaeth Llyfr Llwyd y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) a gweithdrefnau GTAGC, mae gan Reolwyr Gwylfa, Rheolwyr Criw, a Diffoddwyr Tân hawl i'r gwyliau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyliau Graddfa A | - | 25 diwrnod (3 x bloc o 7 diwrnod, 1 x bloc o 4 diwrnod, h.y. 16 diwrnod dyletswydd wedi'u cymryd mewn 4 bloc) | |
| Gwyliau Graddfa B | - | 5 diwrnod | |
| Gwyliau Cyhoeddus | - | 8 diwrnod | |
| *Gwyliau Gwasanaeth Hir | | 3 diwrnod | |
| *Gwyliau Presenoldeb Da | | 1 diwrnod | (Caiff oddeutu 50% o staff hwn) |

**Mae gwyliau gwasanaeth hir yn berthnasol i weithwyr sydd, ar ddechrau'r flwyddyn wyliau, wedi rhoi pum mlynedd o leiaf o wasanaeth amser llawn neu ran-amser parhaus o dan y cynllun amodau gwasanaeth hwn**

**Bydd gwyliau presenoldeb da yn cael ei roi i staff sydd ddim wedi cymryd absenoldeb salwch yn y 12 mis blaenorol**

## CAPASITI GWYDNWCH CRIWIAU DYDD

24. Rhaid i staff weithio 182.5 shifft ar gyfartaledd bob blwyddyn cyn y rhoddir unrhyw wyliau. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r patrwm shifftiau pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd.

25. Ar hyn o bryd, mae 14 swydd ym mhob un o bum gorsaf dyletswydd Criw Dydd y Gwasanaeth, sef cyfanswm o 70 swydd.

26. Mae'r uchod yn rhoi 2100 o shifftiau posibl y flwyddyn i'r Gwasanaeth ym mhob un o'r pum gorsaf Criw Dydd (cyfartaledd o 150 shifft ar gyfer pob un o'r 14 aelod criw, ar ôl tynnu gwyliau).

27. Mae'r weithdrefn bresennol i gael pum aelod o bersonél y dydd ar beiriant, 365 diwrnod y flwyddyn, yn gofyn am 1825 shifft lawn y flwyddyn os am gael criw 'delfrydol'.

28. Mae'r uchod felly yn gadael gwarged cychwynnol o 275 shifft y flwyddyn ar bob un o bum gorsaf dyletswydd Criw Dydd y Gwasanaeth, yn ddarostyngedig i amodau. Mae hyn yn cyfateb i 137.5 shifft fesul gwylfa.

29. Mae'r tabl a'r wybodaeth isod yn manylu ar yr uchod.

## TABL A FFIGYRAU Y SEFYDLIAD CRIW DYDD YM MHOB GORSAF

| Y model gweithredu presennol ar gyfer Dyletswydd Criw Dydd | | | |
|---|---|---|---|
| **Gorsaf** | **Peiriannau Llawn-amser** | **Swyddi** | **Model y Rhestr Ddyletswyddau** |
| Bae Colwyn | 1 Amser Cyflawn | 14 | Criw Dydd Cyfredol |
| Llandudno | 1 Amser Cyflawn | 14 | Criw Dydd Cyfredol |
| Bangor | 1 Amser Cyflawn | 14 | Criw Dydd Cyfredol |
| Caernarfon | 1 Amser Cyflawn | 14 | Criw Dydd Cyfredol |
| Caergybi | 1 Amser Cyflawn | 14 | Criw Dydd Cyfredol |
| Cyfanswm staff angenrheidiol | | 70 | |

## CYFRIFIADAU GORSAFOEDD CRIW DYDD

30. Ar ôl didyniadau ar gyfer gwyliau (32.5 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd), ac o ystyried y system ddyletswydd pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod oddi ar ddyletswydd a ddefnyddir, mae'r shifftiau canlynol ar gael i'r Gwasanaeth ym mhob un o'r pum gorsaf Criw Dydd.

| | |
|---|---|
| 14 personél x 150 shifft y flwyddyn (cyfartaledd) | 2100 o shifftiau ar gael yn flynyddol |
| Angen 5 swydd y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn | Angen 1825 shifft y flwyddyn |
| Gwarged capasiti cychwynnol o 275 shifft y flwyddyn | Capasiti gwydnwch o 15% |
| Cyfradd gyfredol absenoldeb o bob math (2023–2024) | Absenoldeb o 8%** |
| Gwarged o 275 shifft y flwyddyn – 168 absenoldeb shifft | Gwarged capasiti o 107 shifft y flwyddyn |
| 14 swydd gyda 5 diwrnod hyfforddi y flwyddyn | 70 diwrnod hyfforddi bob blwyddyn |
| | 37 shifft gwydnwch fesul gorsaf bob blwyddyn |

Cyfanswm o 185 o shifftiau y flwyddyn ar draws pob gorsaf Criw Dydd, sy'n gwella gwydnwch os cânt eu rhannu

** Mae'r absenoldeb o 8% yn cynnwys pob absenoldeb, bônt wedi'u cynllunio neu ddim, gan gynnwys salwch tymor byr a hirdymor, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, seibiannau gyrfa, absenoldeb profedigaeth, a dyletswydd rheithgor**

## TROSOLWG O'R SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN

31. Mae System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn GTAGC yn system shifftiau sydd â chytundeb Llyfr Llwyd y Cyd-gyngor Cenedlaethol sy'n seiliedig ar bersonél yn gweithio'u holl oriau dyletswydd mewn gorsafoedd, heb unrhyw elfen o fod ar alwad. Mae tair o orsafoedd GTAGC yn defnyddio'r system ddyletswydd hon.

32. Mae Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl yn defnyddio system â phedair gwylfa, gyda saith person ar bob gwylfa.

33. Mae Wrecsam yn defnyddio system pedair gwylfa gyda 13 person ar bob gwylfa.

34. Mae'r trefniadau presennol ar bob un o'r gorsafoedd sydd ar system shifftiau dyletswydd 24 awr yn golygu bod rhaid i bersonél weithio dwy shifft dydd naw awr o hyd, yna dwy shifft nos 15 awr o hyd, yna pedwar diwrnod rota.

Mae Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol (Y Llyfr Llwyd) yn nodi:

*The hours of duty of full-time employees on this system shall be an average of forty-two per week. The hours of duty of part time employees shall be pro rata. The rota will be based on the following principles:*

1. *Each period of twenty-four hours shall be divided into a day shift and a night shift.*
2. *The night shift shall not be less than twelve hours.*
3. *There shall be at least two complete periods of twenty-four hours free from duty each week.*
4. *Leave days shall change week by week in a regular progressive manner.*
5. *No rota system shall include continuous duty periods of twenty-four hours.*
6. *Three hours shall be specified for meal breaks in every twenty-four hours. The timing of these periods is at the discretion of the authority. Account shall be taken of meal breaks interrupted by emergency calls.*

## ORIAU GWAITH Y SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN

35. Rhaid i staff weithio 182.5 diwrnod y flwyddyn, ar gyfartaledd, ac eithrio'r hawl gwyliau blynyddol a gyfrifir o'r patrwm shifft pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd.

36. Ar hyn o bryd, mae un shifft yn cael ei chyfrif fel naill ai un shifft dydd naw awr neu un shifft nos 15 awr.

37. Mae'r trefniadau presennol yn golygu bod rhaid i bersonél ar y system shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn weithio dwy shifft dydd 9-awr, yna dwy shifft nos 15 awr, ac yna pedwar diwrnod i ffwrdd.

38. Yn GTAGC, mae'r shifft dydd yn dechrau am 0900, a'r shifft nos yn dechrau am 1800.

**TREFNIADAU GWYLIAU'R SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN**

39. Yn unol ag amodau gwasanaeth Llyfr Llwyd y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) a gweithdrefnau GTAGC, mae gan Reolwyr Gwylfa, Rheolwyr Criw, a Diffoddwyr Tân hawl i'r gwyliau canlynol ym mhob blwyddyn galendr:

| | | |
|---|---|---|
| Gwyliau Graddfa A | - | 25 diwrnod (3 x bloc o 7 diwrnod, 1 x bloc o 4 diwrnod, h.y. 16 diwrnod ar ddyletswydd wedi'u cymryd mewn 4 bloc) |
| Gwyliau Graddfa B | - | 5 diwrnod |
| Gwyliau Cyhoeddus | - | 8 diwrnod |
| *Gwyliau Gwasanaeth Hir | | 3 diwrnod |
| *Gwyliau Presenoldeb Da | | 1 diwrnod (Caiff oddeutu 50% o staff hwn) |

**Mae gwyliau gwasanaeth hir yn berthnasol i weithwyr sydd, ar ddechrau'r flwyddyn wyliau, â phum mlynedd o leiaf o wasanaeth amser llawn neu ran-amser parhaus o dan y cynllun amodau gwasanaeth hwn**

**Bydd gwyliau Presenoldeb Da yn cael ei roi i staff sydd ddim wedi cymryd absenoldeb salwch yn y 12 mis blaenorol**

**CAPASITI GWYDNWCH SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN – Y RHYL A GLANNAU DYFRDWY**

40. Rhaid i staff weithio 182.5 shifft ar gyfartaledd bob blwyddyn cyn y cyfrifir unrhyw wyliau. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r patrwm shifftiau pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd.

41. Mae 28 o swyddi wedi'u lleoli yng Ngorsaf Dân Glannau Dyfrdwy a 28 o swyddi yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

42. Mae Gorsafoedd Tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn gweithredu system pedair gwylfa, gyda saith person ar bob gwylfa.

43. Mae’r uchod yn rhoi 4200 o shifftiau posibl y flwyddyn i’r Gwasanaeth yng Nglannau Dyfrdwy a 4200 o shifftiau posibl yn y Rhyl (cyfartaledd o 150 shifft ar gyfer pob un o’r 28 aelod criw, ar ôl tynnu gwyliau).

44. Mae’r weithdrefn bresennol i gael 5 aelod o bersonél ar bob peiriant ar y shifft nos a’r shifft dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, yn gofyn am 3650 shifft lawn bob blwyddyn (1825 dydd a 1825 nos).

45. Felly, mae'r uchod yn gadael gwarged cychwynnol o 550 o shifftiau y flwyddyn yng Ngorsaf Dân Glannau Dyfrdwy ac yng Ngorsaf Dân y Rhyl, yn ddarostyngedig i amodau. Mae hyn yn cyfateb i 137.5 shifft i bob gwylfa.

46. Mae’r tabl isod a’i wybodaeth gysylltiedig yn manylu ar yr uchod.

## TABL A FFIGYRAU SEFYDLIAD SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN AR GYFER Y RHYL/GLANNAU DYFRDWY

| Model gweithredu presennol 24 awr ar Shifft Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl | | | |
|---|---|---|---|
| **Gorsaf** | **Peiriannau Llawn-amser** | **Swyddi** | **Model y Rhestr Ddyletswyddau** |
| Glannau Dyfrdwy | 1 Amser Cyflawn | 28 | System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn Cyfredol |
| | | | |
| Y Rhyl | 1 Amser Cyflawn | 28 | System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn Cyfredol |
| Cyfanswm staff angenrheidiol | | 56 | |

**FFIGYRAU SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN Y RHYL/GLANNAU DYFRDWY**

47. Ar ôl didyniadau ar gyfer gwyliau (32.5 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd), ac o ystyried y system ddyletswydd pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd a ddefnyddir, mae’r shifftiau canlynol ar gael i’r Gwasanaeth yng Nglannau Dyfrdwy a’r Rhyl.

| | |
|---|---|
| 28 swydd x 150 shifft dyletswydd y flwyddyn ar gyfartaledd | 4200 o shifftiau ar gael y flwyddyn |
| 5 swydd i bob shifft, 365 diwrnod y flwyddyn, x2 | Angen 3650 shifft y flwyddyn |
| Gwarged capasiti cychwynnol o 550 shifft y flwyddyn | Capasiti gwydnwch o 15% |
| Cyfradd gyfredol absenoldeb o bob math (2023–2024) | Absenoldeb o 8% |
| 550 shifft y flwyddyn – 336 absenoldeb shifft | Gwarged capasiti o 214 shifft y |
| 28 swydd gyda 5 diwrnod hyfforddi y flwyddyn | 140 diwrnod hyfforddi bob blwyddyn |
| | **74 shifft gwydnwch ym mhob gorsaf bob blwyddyn** |

**Cyfanswm o 494 shifft gwydnwch y flwyddyn ar draws y tair gorsaf System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn, gan wella gwydnwch os cânt eu rhannu*

** Mae'r absenoldeb o 8% yn cynnwys pob absenoldeb, bônt wedi'u cynllunio neu ddim, gan gynnwys salwch tymor byr a hirdymor, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, seibiannau gyrfa, absenoldeb profedigaeth, a dyletswydd rheithgor**

**CAPASITI GWYDNWCH Y SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN – WRECSAM**

45. Rhaid i staff weithio 182.5 shifft ar gyfartaledd bob blwyddyn cyn y cyfrifir unrhyw wyliau. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r patrwm shifftiau pedwar diwrnod ar ddyletswydd a phedwar diwrnod i ffwrdd.

46. Mae 52 swydd wedi'u lleoli yng Ngorsaf Dân Wrecsam.

47. Mae Gorsaf Dân Wrecsam yn defnyddio system pedair gwylfa gyda 13 person ar bob gwylfa.

48. Mae'r uchod yn rhoi 7800 shifft posibl y flwyddyn i'r Gwasanaeth (cyfartaledd o 150 shifft ar gyfer pob un o'r 52 aelod criw, ar ôl tynnu gwyliau).

49. Mae'r weithdrefn bresennol i gael 9 aelod o bersonél ar bob peiriant ar y shifft nos a'r shifft dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, yn gofyn am 6570 shifft lawn bob blwyddyn (3285 shifft dydd a 3285 shifft nos).

50. Mae'r uchod felly yn gadael gwarged cychwynnol o 1230 o shifftiau y flwyddyn, yn ddarostyngedig i amodau.

51. Mae'r tabl isod a'i wybodaeth gysylltiedig yn manylu ar yr uchod.

**TABL A FFIGYRAU SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN – WRECSAM**

| Model gweithredu presennol 24 awr ar Shifft Wrecsam | | | |
|---|---|---|---|
| **Gorsaf** | **Peiriannau Llawn-amser** | **Swyddi** | **Model y Rhestr Ddyletswyddau** |
| Wrecsam | 2 Amser Cyflawn | 52 | System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn Cyfredol |
| Cyfanswm staff angenrheidiol | | 52 | |

## LEFELAU GWYDNWCH SYSTEM SHIFFTIAU DYLETSWYDD AMSER CYFLAWN WRECSAM

| | |
|---|---|
| 52 swydd x 150 shifft dyletswydd y flwyddyn, ar gyfartaledd | 7800 o shifftiau ar gael y flwyddyn |
| Angen 9 swydd y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn x 2 | Angen 6570 shifft y flwyddyn |
| Gwarged capasiti cychwynnol o 1230 shifft y flwyddyn | Capasiti gwydnwch o 18.5% |
| Cyfradd gyfredol absenoldeb o bob math (2023–2024) | Absenoldeb o 8% ** |
| 1230 shifft y flwyddyn – 624 absenoldeb shifft | Gwarged capasiti o 606 shifft y flwyddyn |
| 52 swydd gyda 5 diwrnod hyfforddi y flwyddyn | 260 diwrnod hyfforddi bob blwyddyn |
| | **Gwarged o 346 shifft y flwyddyn |

**Cyfanswm o 494 shifft gwydnwch y flwyddyn ar draws y tair gorsaf Shifftiau Dyletswydd 24 awr, gan wella gwydnwch os cânt eu rhannu*

** Mae'r absenoldeb o 8% yn cynnwys pob absenoldeb, bônt wedi'u cynllunio neu ddim, gan gynnwys salwch tymor byr a hirdymor, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, seibiannau gyrfa, absenoldeb profedigaeth, a dyletswydd rheithgor**

## CASGLIAD

Mae'r ffigurau uchod yn dangos bod cyfanswm o 679 o shifftiau gwarged ar draws y system Shifftiau Dyletswydd 24 awr a'r systemau Shifftiau Dyletswydd Criwiau Dydd, gan ddangos, ar ffurf profi cysyniad, bod y systemau dyletswydd presennol a'r sefydliad o 178 o bersonél yn yr wyth gorsaf amser cyflawn bresennol yn cynnig gwydnwch digonol i ddarparu ar gyfer unrhyw ddiffygion criwio, a hynny gan ganiatáu ar gyfer absenoldeb o bob math. Ar ben hynny, bydd hyn hefyd yn rhoi digon o gapasiti gwydnwch i'r Adran Hyfforddi a Datblygu dynnu personél o'r rota am bum diwrnod y flwyddyn i ymgymryd â chyrsiau hyfforddi a datblygu tra byddant ar ddyletswydd.

Bydd gweithredu'r cydgytundeb hwn yn llwyddiannus yn caniatáu i GTAGC dreialu cynigion eraill ar gyfer darpariaeth frys effeithiol ar draws Gogledd Cymru gyfan.

## GWELLA CAPASITI GWYDNWCH

### Sicrhau bod y broses ddyrchafu yn cyd-fynd â'r flwyddyn wyliau

53. Mae'r trefniadau presennol yn golygu bod y broses dyrchafu goruchwyliol flynyddol yn digwydd ar ôl i geisiadau am wyliau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo. Digwydda'r broses rhwng Ionawr a Mawrth fel arfer, ac fel arfer mae'n cynnwys pob swydd, o Reolwyr Ardal i Ddiffoddwyr Tân.

54. Mae'r broses ddyrchafu bob amser yn arwain at symud personél i orsaf neu Wylfa wahanol, a hynny heb fod o wirfodd ar brydiau, gan olygu bod gwrthdaro o ran gwyliau yn anochel.

55. Pan ddigwydda hyn, y tueddiad fel arfer yw i'r gwyliau gael ei barchu, ond yn aml bydd yn achosi diffyg y bydd rhaid ei lenwi trwy wneud taliadau goramser i staff eraill.

56. Trwy symud y broses ddyrchafu a'i chynnal cyn i'r ceisiadau am wyliau gael eu gwneud, gallwn osgoi'r gwrthdrawiadau a geir ar hyn o bryd a rhyddhau capasiti gwydnwch.

**Mynd ar ddyddiau hyfforddi neu wneud gweithgareddau eraill i'r Gwasanaeth ar ddiwrnodau rota**

57. Dan y trefniadau presennol, rhaid i bersonél fynd ar sawl diwrnod hyfforddi bob blwyddyn, a hynny yn aml ar ddiwrnodau rota. Telir am hyfforddiant ar ddyddiau rota ar gyfradd o amser a hanner. Caiff hwn ei rannu'n ddiwrnod Gwneud Iawn am Hyfforddiant (TC) ynghyd â 50% o Amser i Ffwrdd yn Lle Tâl (TIL).

58. Mae'r trefniant uchod wedi arwain at groniad sylweddol o Amser i Ffwrdd yn Lle Tâl ar draws personél y Gwasanaeth, yn ogystal â chroniad o ddiwrnodau Gwneud Iawn am Hyfforddiant, a rhaid darparu ar gyfer y naill a'r llall. Mae hyn yn aml yn gadael Gwylfeydd yn brin o bersonél, a rhaid gwneud taliadau goramser i staff eraill er mwyn llenwi'r diffyg.

59. O dan y cytundeb hwn bydd y rhan fwyaf o gyrsiau hyfforddi a datblygu yn cael eu cymryd ar ddiwrnodau dyletswydd. Rhaid cymryd unrhyw ddiwrnodau hyfforddi a weithir ar ddiwrnodau rota fel goramser yn hytrach na TC/TIL.

60. Rhaid i bersonél sy'n gwneud gweithgareddau awdurdodedig eraill y Gwasanaeth ar ddiwrnodau rota, megis rhwydweithiau, grwpiau a fforymau staff, gymryd yr amser a gronnir fel goramser ac nid TIL.

**Amseroedd dechrau shifftiau**

61. Mae'r trefniadau ar gyfer personél ar hyn o bryd yn golygu bod y gwahanol systemau dyletswydd yn dechrau eu shifftiau ar wahanol adegau. Mae hyn yn creu rhwystr i wydnwch gan na all aelodau o griwiau gorsafoedd system ddyletswydd Criwiau Dydd gael eu hadleoli i lenwi diffyg mewn gorsaf System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn, ac i'r gwrthwyneb.

62. Mae'r uchod yn aml yn arwain at orsaf Criw Dydd, er enghraifft, sydd â 'chapasiti sbâr', h.y. chwech neu saith aelod o bersonél ar ddyletswydd ar ddiwrnod penodol, a dim modd rhyddhau'r capasiti hwnnw i orsaf System Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn. Rhaid i'r diffyg, o ganlyniad, gael ei lenwi trwy wneud taliadau goramser i staff eraill.

63. Bydd aildrefnu'r patrymau shifft i ddechrau ar yr un pryd yn rhyddhau capasiti gwydnwch gan y bydd yn caniatáu i bersonél symud er mwyn llenwi diffygion ar draws ystod ehangach o orsafoedd, gan osgoi unrhyw gamau adfer a allai effeithio ar gymryd gwyliau neu gael criwiau sy'n llai na'r nifer ddelfrydol o bump ar bob peiriant.

64. O dan y cytundeb hwn a'i gynllun peilot, bydd amseroedd dechrau a gorffen y systemau shifftiau dyletswydd Amser Cyflawn a Chriwiau Dydd presennol yn cyd-fynd fel a ganlyn o 1 Medi 2025 hyd at ddiwedd 12 mis llawn cyntaf y cynllun peilot (1 Ionawr 2026 i 31 Rhagfyr 2026).

| **Amseroedd dechrau a gorffen mewn gorsafoedd System Dyletswydd Amser Cyflawn presennol o dan y cytundeb hwn** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gorsaf** | **Shifft Dydd** | **Shifft Nos** | **Oriau positif** |
| Y Rhyl, Glannau Dyfrdwy, Wrecsam | 08.00 – 18.00 | 18.00 – 08.00 | Amh. |
| | | | |
| Caernarfon, Bangor, Caergybi, Llandudno, Bae Colwyn | 08.00 – 18.00 | Amh. | ** Cytunir yn lleol** |

**Trwy gytundeb lleol, gall pob gorsaf criw dydd ddarparu gwasanaeth yn ystod y ddwy awr bositif ychwanegol y mae'n rhaid eu cael bob dydd, un ai ar ddechrau a diwedd yr amser y mae'n rhaid bod yn yr orsaf, neu fel awr bob ochr i'r amser shifft**.

Bydd adolygiadau chwarterol yn caniatáu adborth gan bob parti ynghylch effaith y newidiadau hyn.

65. Gwerthuso'r Cynllun Peilot

Ar ôl i'r cyfnod peilot orffen (31 Rhagfyr 2026), bydd y rhai sy'n gyfrifol am fonitro'r cydgytundeb hwn yn cynnal gwerthusiad er mwyn penderfynu pa drefn fydd yn cael ei chyflwyno'n barhaol yn y dyfodol. Bydd y cydgytundeb hwn yn parhau i fod yn weithredol trwy gydol y cyfnod gwerthuso hwn.

**Cymeradwyo gwyliau**

66. Mae'r protocolau rhestr dyletswyddau presennol yn galluogi'r Gwasanaeth i sicrhau bod darpariaeth ar gael i wneud yn iawn am gyfran fawr o'r diffygion criw a welir mewn blwyddyn (naill ai oherwydd salwch tymor hir neu salwch byrdymor), a hynny trwy wneud adleoliadau dros dro, darpariaeth gwydnwch, neu drwy gael cymeradwyaeth fwy cadarn o wyliau 'nad ydynt yn sylfaenol' h.y. Gŵyl y Banc (BH) ac Amser i Ffwrdd yn Lle Tâl (TIL)

67. Bydd y modd y cymeradwyir gwyliau yn cael ei ddiffinio o fewn diweddariad i bolisi a gweithdrefn y rhestr ddyletswyddau amser cyflawn, a bydd yn dilyn y prosesau ymgynghori presennol.

**Ailddosbarthu gwyliau (blwyddyn wyliau 2026 ymlaen)**

68. Mae'r protocolau gwyliau presennol yn caniatáu i ddau aelod o bersonél fod i ffwrdd ar wyliau blynyddol (AL) ar unrhyw un adeg, ar wahân i wythnosau gwydnwch dynodedig, pan na chaniateir i fwy nag un fod ar wyliau. Yn Wrecsam, mae'r trefniant cyfatebol yn caniatáu i bedwar fod ar wyliau ar yr un pryd, a thri ar wythnosau gwydnwch dynodedig.

69. Mae'r trefniant uchod yn golygu bod rhai misoedd pan nad oes unrhyw gapasiti gwydnwch ar gael. Trwy ailddosbarthu Gwyliau Blynyddol Statudol yn gyfartal trwy gydol y flwyddyn, a thrwy gyflwyno Polisi Rhestr Ddyletswyddau diwygiedig, *bydd capasiti gwydnwch yn cael ei ddosbarthu'n fwy cyson ar draws y flwyddyn.*

**Darpariaeth gwydnwch bresennol**

70. Mae'r gweithdrefnau gwydnwch presennol yn nodi mai dim ond i gwmpasu diffyg oherwydd absenoldebau salwch tymor byr y gellir defnyddio hwn, sef absenoldebau am gyfnodau byrrach nag 16 diwrnod. Golyga hyn na ellir defnyddio capasiti weithiau, hyd yn oed os yw ar gael, oherwydd nad oes rhaid i'r orsaf dan sylw ryddhau'r aelod criw dan sylw os ydynt yn dewis cymryd gwyliau. O dan y cydgytundeb hwn, bydd y 'rheol' 16 diwrnod yn cael ei hadolygu, gyda pharamedrau newydd, i ganiatáu'r defnydd o'r ddarpariaeth gwydnwch i lenwi ystod ehangach o ddiffygion criwio.

71. Rhagwelir y bydd gwella'r capasiti gwydnwch yn lliniaru diffygion criw mewn gorsafoedd amser cyflawn. I wneud hyn, byddwn yn cytuno mewn partneriaeth gymdeithasol ar bolisi newydd ar gyfer y rhestr ddyletswyddau amser cyflawn, a fydd yn ceisio gwella diffygion criwio, trefniadau gwydnwch, a sut mae gwyliau'n cael ei ddosbarthu.

72. Mae'r cytundeb hwn yn symud tuag at ganiatáu'r defnydd o ddarpariaeth gwydnwch i lenwi ystod ehangach o ddiffygion criwio. Bydd caniatáu'r defnydd o'r ddarpariaeth gwydnwch i lenwi ystod ehangach o ddiffygion criwio yn cynyddu capasiti gwydnwch systemau dyletswydd presennol y gorsafoedd.

**Diwygio'r canllawiau ar y rhestr ddyletswyddau amser cyflawn**

73. Er mwyn cyflawni'r uchod, rhaid cael gwared ar unrhyw amwysedd o'r Polisi Rhestr Ddyletswyddau a'r dogfennau cysylltiedig, a hynny er mwyn rhoi eglurder i'r holl reolwyr a phersonél. I wneud hyn, bydd rhaid i'r dogfennau hyn gael eu hadolygu cyn y dyddiad cychwyn (1 Medi 2025). Byddai unrhyw adolygiad yn ddarostyngedig i gytundeb mewn partneriaeth gymdeithasol.

**Bydd y Cydgytundeb lleol hwn yn rhan o'r contract cyflogaeth trwy gytundeb cydfuddiannol ar gyfer y personél hynny a gyflogir ar orsafoedd Criwiau Dydd Amser Cyflawn a gorsafoedd Shifftiau Dyletswydd Amser Cyflawn yn GTAGC. Mae'r partïon isod wedi ymrwymo i'r cydgytundeb hwn.**

Llofnod.................................................   Dyddiad................

Ar ran Undeb y Brigadau Tân

Llofnod..................................................   Dyddiad................

Ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru